***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1053

## Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006

**Adnabod M. bovis mewn labordy**

**19.**—(1) Pan adnabyddir presenoldeb yr organeb *M. bovis* drwy archwilio mewn labordy sampl a gymerwyd o unrhyw famal (heblaw dyn) neu o garcas, cynhyrchion neu amgylchoedd unrhyw famal o'r fath, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y labordy hwnnw hysbysu'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol yn ddi-oed.

(2) Nid yw'r ddyletswydd i hysbysu'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol ym mharagraff (1) yn gymwys pan fo *M. bovis* yn bresennol yn y sampl oherwydd ei osod yno'n fwriadol fel rhan o ymchwil sy'n cynnwys defnyddio'r organeb honno.